



Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) **Cynllun Strategol** 2023-26



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Rhagair gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Mae'r gweithlu addysg yn grŵp unigryw o weithwyr proffesiynol. Mae eu gwaith o bwys nid yn unig i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu haddysgu a'u hysbrydoli, ond i gymdeithas yn ei chyfarwydd hefyd. Mae eu proffesiynoldeb a'u gwasanaeth yn annatod i lywio dinasysddion, cymdeithas ac economi Cymru yn y dyfodol.

Yng Nghyngor y Gweithlu Addysg (CGA), rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb am gynnal proffesiynoldeb a gwella safonau yn ddifrifol tu hwnt. Felly, rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Strategol ar gyfer 2023-26, sy'n amlinellu ein gweledigaeth i fod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, dibynadwy ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru ac mae'n esbonio sut byddwn yn gweithio er lles y cyhoedd i gyflawni hyn.

Bu'n rhaid i'r gweithlu addysg yng Nghymru addasu ac ymateb i heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru i COVID-19. Mae tystio i'r ffordd y mae ein cofrestreion wedi ymateb wedi bod yn ysbrydoledig. Ar draws ysgolion, colegau addysg bellach, gwaith ieuencid, a dysgu seiliedig ar waith, mae'r gweithlu wedi dangos gwydnwch a pharodrwydd

i addasu a chofleidio ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

Hefyd, mae CGA wedi addasu, a bydd yn parhau i addasu, i sicrhau ein bod yn rheoleiddio'n effeithiol ac yn cefnogi ein cofrestreion a'n rhanddeiliaid. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwerth am arian. Nid yw ffioedd cofrestru, sy'n darparu ein hincwm craidd, wedi cynyddu ers ein sefydlu yn 2015 (ers 2008 i athrawon ysgol), er gwaethaf costau sefydliadol cynyddol. Yn y cynllun hwn, amlinellwn ein hymrwymiad parhaus i wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ac rydym yn amlinellu sut byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn parhau'n annatod i'n gweithrediadau a'n gweithdrefnau.

Ein blaenoriaeth ganolog dros gyfnod y Cynllun Strategol hwn fydd diogelu dysgwyr a phobl ifanc er budd rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd, trwy ein rôl fel y rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol.

Byddwn hefyd yn ehangu ystod yr adnoddau a'r gwasanaethau a gynigiwn i gofrestreion, gan ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd estynedig i'w cynorthwyo i gyflawni'r safonau proffesiynol uchaf.



Trwy Addysgwyr Cymru, ein gwasanaeth recriwtio, cyngor a chymorth, byddwn yn chwarae rôl allweddol o ran gyrru recriwtio i'r proffesiynau addysg. Felly, byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau i geisio denu mwy o unigolion i ymuno â'r gweithlu, gan gynnwys o fewn meysydd blaenoriaeth fel addysgwyr o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, siaradwyr Cymraeg, ac athrawon pynciau sy'n brin o athrawon.

Byddwn yn parhau hefyd i ddefnyddio ein sefyllfa unigryw yn y tirlun addysg, ein gwybodaeth am y system, a'r data o'n Cofrestr, i gyfrannu at ddatblygiad polisi

seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu i yrru gwelliant ar draws y system addysg yng Nghymru.

Bwriad y Cynllun Strategol hwn yw darparu cyfeiriad cadarn i CGA fel sefydliad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn barod i addasu a hyblyg i sicrhau y byddwn yn parhau'n rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, llwyddiannus sy'n bodloni anghenion ein cofrestreion, dysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd.

Ar ran CGA, diolch i chi am eich diddordeb yn ein gwaith, a'ch cefnogaeth iddo.



Angela Jardine,
Cadeirydd



Hayden Llewellyn,
Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ac yntau wedi'i sefydlu gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ymarferwyr o saith grŵp gwahanol yn y gweithlu addysg, o'r cyfnod sylfaen i addysg bellach, gwaith ieuencid, a dysgu seiliedig ar waith, gofrestru gyda CGA. Ein Cofrestr o Ymarferwyr Addysg yng Nghymru yw'r gofrestr gyhoeddus fwyaf o blith unrhyw broffesiwn yng Nghymru a'r gofrestr ehangaf o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, gyda thros 85,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2023-26 ac mae'n adlewyrchu ein rôl strategol a'n cylch gwaith yng nghydestun y tirlun addysg ehangach yng Nghymru. Wrth ddatblygu'r cynllun, rydym wedi ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'n gweithgareddau ein hunain a'r amgylchedd allanol, ac wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, staff CGA, a'r gymuned addysg.

Ein gweledigaeth

Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol dibynadwy sy'n gweithio er budd y cyhoedd i gynnal proffesiynoldeb a gwella safonau yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ein diben

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn amlinellu ein rôl yn ffurfiol, sef rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, ac arweinydd strategol yn y sector addysg yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar ein hymrwymiadau i'n cofrestreion, dysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid, a'r cyhoedd. Caiff ein prif nodau o dan y Ddeddf eu crynhoi isod, a manylir ymhellach arnynt mewn is-ddeddfwriaeth. Dyma nhw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phobl sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru
- diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd, a chynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg



Ein gwerthoedd

Tegwch	Rydym yn gweithredu'n deg a gydag uniondeb i gynnal safonau a hybu proffesiynoldeb.
Cefnogaeth	Rydym yn cefnogi'r gweithlu addysg i gynnal safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer.
Rhagoriaeth	Rydym yn anelu at ragoriaeth ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gofrestreion, rhanddeiliaid, dysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid, a'r cyhoedd.
Cydweithredu	Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a hybu rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu.
Annibyniaeth	Rydym yn annibynnol ac yn rheoleiddio mewn modd diduedd ac wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn annatod i'r ffordd rydym ni'n mynd ati i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol a gweithredu ein hamcanion strategol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 yn esbonio sut byddwn yn gweithio i hyrwyddo'r egwyddorion hyn, o fewn ein sefydliad, ac (o fewn ein cylch gwaith) ar draws y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru.

Ein pobl

Mae ein Cyngor yn cynnwys 14 aelod sy'n gosod cyfeiriad strategol y sefydliad ac yn gyfrifol am ei lywodraethu.

Penodir pob aelod am gyfnod o bedair blynedd. Penodir saith aelod yn uniongyrchol trwy system penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a phenodir saith yn sgil cael eu henwebu gan amrywiaeth o randdeiliaid.

Hefyd, rydym yn cynnal ac yn cefnogi:

- cronfa o fwy na 50 o aelodau panel priodoldeb i ymarfer
- bwrdd achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n cynnwys 12 aelod
- cronfa o fwy na 40 aseswr y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru

Rydym yn cyflogi dros 50 o aelodau staff.



Cynaliadwyedd ariannol

A ninnau'n rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol a ariennir trwy ffioedd cofrestru, mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu yn unol â'n cyllideb, ac yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon. Byddwn yn parhau i ymdrechu i gadw ffioedd mor isel â phosibl, tra'n darparu'r lefel gwasanaeth uchaf wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol. Fel rheoleiddwyr eraill, rydym hefyd yn cynnal cronfeydd ariannol digonol wrth gefn, er mwyn rhoi sefydlogrwydd a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu hamddiffyn rhag risgiau a allai godi o ddigwyddiadau annisgwyl.

Rydym yn arwain gweithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru yn rheolaidd lle'r ystyrir mai ni yw'r corff mwyaf priodol i wneud gwaith o'r fath yng Nghymru. Mewn achosion felly, bydd Llywodraeth Cymru'n talu ein costau, trwy gyllid grant. Gall CGA hefyd ymgymryd â gweithgareddau masnachol ac mae'n gwneud hynny pan fydd yn ystyried bod hyn er budd cofrestreion a'r sector addysg yng Nghymru.

Cyflwynir ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon gerbron y Senedd yn flynyddol ac mae Archwilio Cymru yn eu harchwilio.

Y Gymraeg

Rydym wedi ymroi i'r Gymraeg ac yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog. Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i weithredu'n sefydliad cwbl ddwyieithog, sy'n cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bioamrywiaeth

Rydym wedi amrywio i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, yn unol â'r dyletswyddau amlinellir yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae ein [datganiad ar Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau](#), a gyhoeddir ar ein gwefan, yn amlinellu ein hymdriniaeth o ran y materion hyn. Fel corff bychan, mae'r cyfleoedd i leihau ein heffaith amgylcheddol yn gyfyngedig, fodd bynnag, lle bynnag ei bod hi'n bosibl, rydym yn gwneud hynny.



Amcanion allweddol ar gyfer 2023–26

Mae ein hamcanion yn amlinellu sut rydym yn amcanu at wireddu ein gweledigaeth yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Bydd y rhain yn cyfrannu at gamau gweithredu mesuradwy a phenodol, a osodir fel rhan o'n proses cynllunio gweithredol flynyddol. Bydd CGA yn adrodd ar ei gynnydd yn erbyn yr amcanion a'r canlyniadau trwy lunio pedwar adolygiad chwarterol a chyhoeddi'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon.

Amcan 1

Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, effeithiol, sy'n gweithio er budd y cyhoedd ac sy'n meithrin hyder yn y gweithlu addysg

- 1.1** Cynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg sy'n gywir ac yn hygyrch.
- 1.2** Gweithredu gweithdrefnau rheoliadol trylwyr, teg, a thryloyw sy'n sicrhau mai dim ond y rheiny sy'n cael eu hystyried yn briodol i ymarfer all wneud hynny.
- 1.3** Llunio ymarfer cofrestreion trwy ddatblygu a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad a phroffesiynoldeb.
- 1.4** Achredu a sicrhau ansawdd rhaglenni a darpariaeth addysg yng Nghymru.
- 1.5** Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod deddfwriaeth sydd wrth wraidd ein swyddogaethau rheoleiddio yn ddigon trylwyr.



Amcan 2

Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu o fewn y gweithlu addysg

- 2.1** Darparu cyfres o ganllawiau, adnoddau, a gwasanaethau proffesiynol i gofrestreion.
- 2.2** Arwain a chefnogi mentrau i hyrwyddo ac annog dysgu proffesiynol effeithiol i gofrestreion.
- 2.3** Arwain a chefnogi mentrau i hyrwyddo ymgysylltiad ag ymchwil a helpu lledaenu arfer gorau i gofrestreion.
- 2.4** Sicrhau gwelededd gwaith CGA ymhlith cofrestreion, rhieni/gwarcheidwaid, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, a dealltwriaeth ohono, drwy gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, hygyrch ac ymatebol.



Amcan 3

Ceisio llywio, llunio, a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg

- 3.1** Darparu cyngor, ymchwil a dadansoddi annibynnol er mwyn llywio a dylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno polisi addysg yng Nghymru, gyda'r nod o helpu gwella safonau.
- 3.2** Cydweithredu â chofrestreion, rhieni/gwarcheidwaid, y cyhoedd, a'n rhanddeiliaid i lywio a dylanwadu ar bolisi addysg yng Nghymru, gan helpu gwella safonau.
- 3.3** Arwain mentrau i hyrwyddo gyrfaedd o fewn y gweithlu addysg a gyrru gwelliannau o ran recriwtio.
- 3.4** Darparu Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB).



Amcan 4

Bod yn sefydliad gwydn, galluog, a chynaliadwy yn ariannol, sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion

- 4.1** Rheoli adnoddau'n effeithiol ac yn gynaliadwy er mwyn bodloni anghenion presennol a'r dyfodol, gan wneud defnydd priodol o dechnoleg i yrru effeithlonrwydd a gwella'n gwasanaethau.
- 4.2** Meddu ar brosesau cynllunio, rheoli perfformiad a chydymffurfio effeithiol, gan sicrhau eu bod yn ymgorffori arfer gorau.
- 4.3** Bod yn gyflogwr rhagorol sy'n hybu diwylliant cefnogol a chynhwysol lle bydd yr holl staff, aelodau'r Cyngor a phwyllgorau/paneli yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn.
- 4.4** Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod deddfwriaeth sydd wrth wraidd ein hannibyniaeth, ein llywodraethiant a'n cyllid yn parhau'n addas at y diben.



